# Y BIGWN

CYF. 31 RHIF 10 CHWEFROR 2020 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*


# Apêl yr Urdd



Noson Bryn Fon - tud 22



Print o Ddinbych gan yr artist Sarah Carvell - tud 22



Cwpl Ifanc ar Noson Santes Dwynwen



Capel Brwcws - tud 4

BOB DIM i fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn yn y Llyfgell erbyn HANNER DYDD, Dydd Gwener, Chwefror 22 neu os modd, drwy ebost i ybigwn@hotmail.co.uk

Ar Werth Mawrth 6

# Cyfarchion



Penblwydd hapus iawn i Elen Wyn Jones a fydd yn 1 oed ar 19 Chwefror. Llawer o gariad gan Mam a Dad a'r teulu i gyd xx



Stondin Ysgol Brodyffryn yn Llyfrgell Dinbych

# Oedfa Nadolig Capel Brwcws









Llongyfarchiadau i Mared Ann Parry, Crud y Castell. Daeth yn ail yn y gystadleuaeth nofio broga yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd a gafodd ei gynnal yng Nghaerdydd 25ain Ionawr 2020.

*Deallwn fod eraill o Sir Ddinbych wedi cael llwyddiant hefyd ac os ydynt o'n dalgylch byddwn yn falch o gyhoeddi manylion a/neu luniau yn y rhifyn nesaf.*



Ysgol Pendref yn canu carolau yn y Llyfrgell



Ffair Aeaf Capel Pendref

## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Nerys Ann Roberts
01745 814950

**GOLYGYDDION:**
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
01745812570@uwclub.net
ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

'Ariennir yn rhannol gan Llywodraeth Cymru'
CYMRAEG

# Gair gan y Golygydd

A dyma ni yn y Mis Bach. Wel, ddim cweit mor fach a'r arfer. Mae'n flwyddyn naid. Be wnewch chi efo'r diwrnod ychwanegol. Mynd am dro? (Gweler erthygl yn y rhifyn hwn!) Ymlacio? Diwrnod yn yr ardd? Ia, dwi'n gwybod na dio ddim yn ddiwrnod ychwanegol go iawn. Bydd rhaid i rai fynd i'r gwaith fel arfer ac ati ond mae'n braf meddwl amdano fel diwrnod ychwanegol, diwrnod i'r brenin efallai. Neu beth am ei ddefnyddio i wirfoddoli dros achos da, achos dyngarol neu wleidyddol. Erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg bydd Yes Cymru Dinbych wedi cwrdd am y tro cyntaf ers misoedd lawer. Beth am ymuno a'r frwydr honno?. Mae mwy o frys dwi'n teimlo i fynd â'r maen i'r wal yn dilyn y ffaith y byddwn allan o'r Undeb Ewropeaidd erbyn i'r rhifyn hwn ddod o'r wasg.
Ym Mis Chwefror mae Dydd Miwsig Cymru. Bydd o newydd fod pan fydd Y Bigwn ar gael gan mai ar y 7ed mae o eleni. Dwi'n meddwl fod cerddoriaeth gyfoes yn arf mor bwysig yn y frwydr dros ein hiaith, Pan ddechreuais fel athro yn Ysgol Glan Clwyd yn 70au'r ganrif ddiwethaf roeddwn hefyd yn trefnu gigs yn Dicsiland Rhyl, Pafiliwn Corwen ac ati ar ran Cymdeithas yr Iaith. Roedd y newid yn agwedd rhai o ddisgyblion yr ysgol at yr iaith ar ôl dechrau mynd i'r gigs yn amlwg. Cyn hynny rhywbeth oedd yn cael ei orfodi arnynt yn yr ysgol oedd yr iaith ond yna roedd rhai o leiaf yn dod yn frwd drosti.
Wrth gwrs mae pob oed yn gallu mwynhau cerddoriaeth gyfoes. Braf oedd gweld ystod enfawr o oedran yn noson Bryn Fôn yn Neuadd y Dref fis diwethaf ar noson Santes Dwynwen. Deunaw oed o leiaf oedd y rheol ond mae'n siŵr fod rhai tipyn iau wedi llwyddo i ddod mewn ac roedd rhai yn eu saithdegau os nad hŷn yno hefyd.
Braf iawn oedd gweld Neuadd y Dref dan ei sang. Mwy o weithgareddau Cymraeg fel hyn sydd ei angen yno. Beth bynnag fydd canlyniad y trafodaethau sy'n dal i fynd ymlaen rhwng y Cyngor Tref a'r Cyngor Sir ynglŷn â pherchnogaeth y neuadd mae'n sicr y bydd angen gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda trefnu digwyddiadau, eu hyrwyddo ac ati os ydi'r neuadd i aros ar agor yn y tymor hir. Mae'n holl bwysig fod digon o siaradwyr Cymraeg yn gwirfoddoli i helpu. Cadwch olwg am hysbys yn gofyn am wirfoddolwyr neu gadewch i rywun ar y Cyngor Tref wybod fod gennych ddiddordeb.

Dyfrig Berry

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**
Mrs Gwyneth Main (er cof am Bobi Owen) £5.00
Janice Jones £10.00
**Diolch am eich cefnogaeth**

## Golygydd Mis Mawrth: Erfyl Williams

Daniel Morris
CIGYDD LLEOL
01745 812585
info@dmorrisbutchers.co.uk
www.dmorrisbutchers.co.uk
124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

## DYDDIADUR

**Urdd Cyfeillion Ysbyty Glan Clwyd**
**Chwefror 14eg 2020**
Stondin Sant Ffolant yn yr Ysbyty - cacennau a chynnwys amrywiol ar werth.
**Chwefror 28ain 2020**
Stondin Gŵyl Dewi yn yr Ysbyty Dydd Gwener - cacennau a chynnwys amrywiol ar werth.
**MENCAP**
**Sadwrn, Mawrth 23ain**
Bore Goffi
MENCAP Dinbych a Rhuthun yn Eirianfa Dinbych 10-12
Stondinau. Mynediad £1
**Cymdeithas Caledfryn**
**Chwefror 28ain**
'Yn yr awyr' gan Martyn Blythin.
**Y Gymdeithas Gymraeg**
**Mawrth 6ed**
Swper Gŵyl Dewi
**Merched y Wawr**
**Mawrth 4ydd**
Dathlu Gŵyl Dewi yng nghwmni Siwgr a Sbeis – Clwb Rygbi

# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS

Rhian Williams agorodd yr Ysgol Sul Rhagfyr 15ed. Bu'r plant yn brysur yn ymarfer ar gyfer eu gwasanaeth y Sul nesaf.

Cyfarfod gweddi a gawsom y prynhawn. Cymerwyd rhan gan Gwilym Williams, Dilwyn Jones a Rhianwen Williams. Cydymdeimlwyd a Lis a Gwilym Edwards yn dilyn marwolaeth eu brawd yng nghyfraith William Ellis Roberts, Llansannan. Carolyn Thomas oedd wrth yr organ.

Pnawn Sul, Rhagfyr 22 cynhaliwyd ein Gwasanaeth Nadolig. Croesawyd teulu a ffrindiau atom gan Carolyn Thomas. Cafwyd cyfraniad arbennig gan y plant. Diolch i'r mamau am eu paratoi. Rhoddwyd gweddi gan Catrin Roberts. Yn dilyn y gwasanaeth cawsom gyfle i gymdeithasu dros baned tra i ni gael unawdau ar y piano gan Arthur, Cari a George. Yna daeth Sion Corn heibio gyda anrheg i bob plentyn. Diolch i Lis a Rhian am drefnu'r baned.

Noswyl Nadolig yn ein Gwasanaeth Carolau, dan ofal Y Parch. Andras Iago, cafwyd darlleniadau gan Martha Llwyd Cordiner, Llinos Rawson a Gwyrfai Jones. Carolyn Thomas oedd yn cyfeilio. Diolch i Lis a Gwilym Edwards a Carolyn a Brian Thomas am addurno'r capel a pharatoi'r canhwyllau.

Bore'r Ŵyl bu Oedfa yn y Fron dan ofal y Parch. Andras Iago.

Nos Sul cyntaf 2020 yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr bu Gwasanaeth Plygain y Fro.

Nos Iau, Ionawr 9ed cynhaliwyd ein Cyfarfod Gweddi Ddechrau'r Flwyddyn gyda Lis Edwards yn arwain. Cymerwyd rhan gan y bobl ifanc sef Martha Cordiner, Catrin Jones a Morgan Cordiner. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

Dydd Sul, Ionawr 12ed cawsom ymuno yn y Fron mewn Gwasanaeth Bedydd dan arweiniad y Parch. Andras Iago.

Nos Fercher, Ionawr 15ed yng Nghymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws cawsom noson ddifyr iawn gyda Dafydd Lloyd Jones yn dangos ffilm am Neuadd y Dref 1917 - 2017.

Dydd Sul, Ionawr 19eg agorwyd yr Ysgol Sul gan Elin Jones a'r genod Magi a Gwen.

Croesawyd Mr Tom Williams atom i oedfa'r prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

## Y CAPEL MAWR A SEION

*****D.S.Sylwer na fydd yna oedfa hwyrol yn Y Capel Mawr na'r Fron yn ystod Chwefror**

**Dydd Sul, Chwefror 2****11am – Y Capel Mawr - Y Bugail, Gweinyddir Cymun yn yr oedfa hon

**Dydd Sul, Chwefror 9**
10am – Y Fron – Y Parch. John Owen, Rhuthun

**Dydd Llun, Chwefror 10**
1.30pm - Cyfarfod Gweddi Cenhadol

**Dydd Sul, Chwefror 17**
10am – Trefnant – Oedfa'r Fro- Y Gweinidog

**Dydd Mawrth, Chwefror 18**
1.30pm – Yr Aelwyd – Brethyn Cartref**Dydd Sul, Chwefror 23**
10am - Y Capel Mawr – Mr Dilwyn Jones

**Llywydd Y Mis: –** Mrs Nerys Ann Roberts

**Organydd/Cyfeilydd:-**
**Chwefror 2 –** Mrs Dorothy Rogers
**Chwefror 23 -** Mrs Catrin Warren

**Blodau**
**Chwefror 2 –** Mrs Cheryl Williams
**Chwefror 23 –**34 Ffordd Colomendy

**LLESTRI'R CYMUN**
Mrs Dorothy Rogers
Mrs Mair Les Jones

**RHOI BLODAU AR Y Sul**
Os hoffech chi roi blodau ar gyfer unrhyw Suliau yn ystod Mawrth ac Ebrill, cysylltwch â Mr Stan Lyall, os gwelwch yn dda. Y rhif ffôn ydyw 01745 813659

**COLLI AELOD**
Gyda thristwch y clywyd am farwolaeth Mrs Beryl Owen ar Ragfyr 17eg. Bu'i hangladd ar Ionawr 3ydd gyda gwasanaeth cyhoeddus yn Amlosgfa Llanelwy.

Gweinyddwyd gan y Parch. Nesta Davies yn absenoldeb y Parch. Ddr. Andras Iago oherwydd gwaeledd.

Yn un a dreuliodd flynyddoedd ym myd nyrsio, roedd Mrs Owen yn aelod ffyddlon yn Y Capel Mawr gan frwydro yn ddewr yn erbyn amgylchiadau i fynychu'r oedfaon hyd at y gallai.

Hi fu'n gyfrifol am flynyddoedd am gasglu stampiau ar gyfer Cronfa'r Gwahangleifion, a bu'n aelod ffyddlon o'r Aelwyd a'r Cyfarfod Gweddi.

Cydymdeimlwn â'i meibion Emyr, David a Huw a'u teuluoedd, gweddill y teulu a'i chyfeillion yn eu profedigaeth, a meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

**COFION**
Anfonwn ein cofiwn cynhesaf at aelodau sydd wedi derbyn triniaeth mewn ysbytai yn ddiweddar, ac at eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Hefyd cofiwn am aelodau eraill sydd yn dioddef o lesgedd a gwaeledd yn eu cartrefi.

## Capel y Fron

Dydd Sul, Rhagfyr 15fed, croesawyd Y Parch Eric Jones, Bangor, atom gyda Mrs Iona Edwards wrth yr organ. Noswyl Nadolig oedd y gwasanaeth carolau a darlleniadau am 11.30 dan ofal ein Gweinidog ac fe wnaeth Mr Gwyrfai Jones gymryd rhan. Yna bore dydd Nadolig fe gawsom oedfa'r Fro yn y Fron ac yr oedd y gwasanaeth yn ngofal ein Gweinidog, Y Parch Andras Iago a'r organyddes oedd Mrs Iona Edwards. Diolch i Wendy Lloyd Jones a'r teulu am addurno'r Capel yn ddestlus iawn dros yr Ŵyl.

Nos Sul, Ionawr 5ed, yr oedd aelodau'r Fro yn cyfarfod yng Nghapel y Pentre ar gyfer y Gwasanaeth Plygain. Diolch i'r aelodau wnaeth ymuno yn y Côr ar y cyd ac aelodau'r Capel Mawr ac hefyd fe wnaeth Mr Ednyfed Williams ganu Carol Plygain, diolch iddo fo hefyd.

Bore Sul, Ionawr 12fed, fe gawsom wasanaeth bendithiol iawn pryd y bu i'r Parch Andras Iago fedyddio Elen Wyn, merch Nia a Sam Jones, ac wyres John Geraint ac Eiri Jones. Fe wnaeth Mr Richard Snelson, Llywydd y Mis, estyn croeso i deulu a ffrindiau'r teulu oedd wedi dod i'r gwasanaeth. Yr organyddes oedd Mrs Iona Edwards.

Nos Lun, Ionawr 7fed, yr oedd Mr Richard Snelson wedi trefnu Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn gyda John Geraint Jones, Mrs Jois Snelson a Dilys Davies yn cymryd rhan, a'r organyddes yn y cyfarfod yma oedd Mrs Eiri Jones.

***Nodyn gan y Golygydd – Bu i adroddiad Capel y Fron mis diwethaf fynd ar goll o Focs y Bigwn yn y Llyfrgell. Ymddiheurwn am hynny.***

## Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws

Pleser oedd cael croesawu Mr Dafydd Lloyd Jones i'n cyfarfod nos Fercher Ionawr 15fed. Fe wnaeth Dafydd ddangos ffilm ar hanes Neuadd y Dref. Fe gawsom weld casgliad o luniau gyda Mr Eifion Lloyd Jones yn adrodd hanes y digwyddiadau a'r newidiadau, hefyd gweld lluniau pobl oedd yn gyfarwydd ac wedi rhoi gwasanaeth mawr i'r dref ar hyd y blynyddoedd. Orig ddifyr iawn. Yr oedd Gwenda Owens a Pamela Lloyd wedi paratoi paned sydd bob amser yn dderbyniol. Diolch yn fawr i bawb.

# Y Cymdeithasau



Gaynor a Llinos

## Y Gymdeithas Gymraeg

Ar Nos Wener Ionawr 10fed, cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf am 2020 yn yr Amgueddfa pryd y croesawyd Llinos Gerallt a fu'n siarad am sgriptio Pobol y Cwm a rhai rhaglenni eraill. Gaynor Morgan Rees oedd yn cyflwyno a diolch. Cawsom ychydig o hanes cyfnod Gaynor yn actio yn y gyfres hefyd. Bu tipyn o holi cwestiynau ar ôl y sgwrs. Cafwyd noson ddiddorol iawn ac Andrew a Gwawr Cordiner oedd yn gyfrifol am y baned ar y diwedd.

## Y Clwb Gosod Blodau

Felicity Cookson agorodd y cyfarfod blynyddol a chytunodd y swyddogion i ddal ati am flwyddyn arall. Ond 'roedd Betty Parker am roi gorau i'w swydd fel trysorydd ar ôl 35 o flynyddoedd wrth y llyw. Cyfraniad arbennig. Diolchodd pawb iddi a rhoed tusw o flodau a thocyn rhodd iddi am ei gwaith. Ein trysorydd newydd yw Julie Houghton – pob lwc iddi. Daeth Wendy Grey Lloyd atom i siarad am ei phrofiadau a'r pethau doniol oedd wedi eu gweld a'u clywed dros y blynyddoedd – roedd yn ddoniol iawn a phawb wedi mwynhau eu hunain. Doris wnaeth y diolchiadau. Bydd ein cyfarfod ar y 7fed o Ebrill yn nwylo Will Simmons o Bridgenorth yn y Capel Mawr am 7.30yh. Croeso i bawb.

CYFARFOD CYFFREDINOL Y BIGWN

Cyfarfod blynyddol yng Nghapel y Fron ar Chwefror 17eg nos Lun am 7 o'r gloch.

Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Jones & Graham
45 Stryd y Dyffryn
Dinbych
Sir Ddinbych
LL16 3AH
CYFRIFWYR AC YMGYNGHORWYR BUSNES
Cyfarfod cyntaf yn rhad ac am ddim
Pob gwasanaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg
01745 816321 office@jonesandgraham.co.uk

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Blwyddyn y Cynghorydd (a'i Wraig)!




A dyma ni ar gychwyn 2020 ac rwy'n cael cyfle i edrych 'nôl dros y flwyddyn ddiddorol a chyffrous a aeth heibio. Fel cynghorydd sir a chynghorydd tref ac am y tro cyntaf fel dirprwy faer mae digon gennai i lenwi fy amser ac i sicrhau nad ydw i na Lynn byth yn 'bored'. Mae hynny'n beth pwysig medde'nhw' er mwyn cadw'r ysbryd yn ifanc a'r meddwl yn chwim.

Rhywbeth arall sy'n ymarfer y cof a'r corff yw edrych ar ôl yr 8 wŷr ac wyres sy'n ymddangos ym Mherth y Rhos o bryd i'w gilydd. Mae dod i Ddinbych yn golygu 3 peth i'r pethe bach –taith i'r Siop Siocled, chwarae yn y parc a dringo muriau'r castell. Rhwng hyn i gyd mae'r gwenyn yn cael eu esgeuluso yn ofnadwy a'r cyflenwad mêl eleni yn fychan iawn a chyfeillion a chwsmeriaid oll yn cael eu siomi.

Yr wythnos o'r blaen fe gafodd cyfaill ei synnu'n fawr pan wnes i gyfaddef fy mod wrth fy modd bod yn gynghorydd. 'Baswn i yn casáu pob munud meddai. Gorfod eistedd trwy'r holl gyfarfodydd diflas a chael pawb yn dod ar dy ôl gyda'u problemau.' Rwy'n gweld y peth mewn ffordd wahanol mae'n debyg. Er nad wyf yn enedigol o Ddinbych rwy'n teimlo erbyn hyn mae dyma fy nghartref ac rwy'n cael pleser mawr o deimlo mod i ar gael i dderbyn cwynion gan drigolion, i wrando ar eu helyntion a weithiau hyd yn oed yn medru datrys rhyw fater sy'n peri gofid iddynt.

Fel rhywun sydd yn falch o geisio siarad o blaid ardal Dinbych rwy'n dibynnu'n fawr ar y cymorth a gaf gan gynghorwyr sy'n llawer mwy profiadol na fi sydd ar y cyngor sir ac ar y cyngor tref. Yn aml y rhai hyn sy'n medru dangos i mi pa faterion sy'n bwysig a pa rai sydd ddim yn bwysig. Hefyd maent yn medru dangos i mi pa broblemau sy'n bosibl eu datrys a pa rai sydd gennai ddim siawns mul i wneud dim byd amdanynt. Dyweder hefyd gan y doethion rai bod hiwmor yn bwysig a bod dôs dda o chwerthin yn llesol i'r iechyd. Felly pan mae cyfarfodydd yn ymddangos yn ddiddiwedd a thrafodaethau yn mynd rownd a rownd yn yr unfan mae'r gallu i weld digrifwch mewn datganiad neu sefyllfa yn gymorth mawr i ddal ati.

Anrhydedd fawr a ddaeth i'n rhan yn y flwyddyn a aeth heibio oedd cael ein dewis fel dirprwy faer a dirprwy faeres y dref. Mae hyn wedi ein galluogi'n barod i rannu llwyfan gyda un o enwogion pennaf ein gwlad - sef Mr. Urdd ei hunan. Hyfryd iawn oedd medru teimlo brwdfrydedd y dorf ym Mhrestatynwrth i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych gael ei gyhoeddi a ni ein dau yno fel cynrychiolwyr Tre Dinbych.

Mae llawer o bethau mawr ar droed yn y dref fel y gwyddoch mae'n debyg: ystadau tai newydd ar y gweill, datblygiad ar saflehen Ysbyty Gogledd Cymru, Chwarel y Graig, cynllun Grwp Cynefin yn Awel y Dyffryn, ystâd ddiwydiannol Colomendy yn cael ei ymestyn a hefyd y posibilrwydd o lwybr beicio newydd a gwelliannau ar y gweill i nifer o ysgolion y dref. Mae yna bryderon hefyd wrth gwrs, gyda dyfodol gwelyau yn yr Inffyrmari a parhad Dolwen yn eu plith. Mi fyddaf wrth gwrs yn dadlau'n gryf o blaid cynnal y gwasanaethau gwerthfawr yma sy'n hanfodol i bob un ohonom.

Mae'n anorfod bod pob tref yn newid dros amser. Mae tref Dinbych yn dref arbennig iawn ac mae'n bwysig iawn, yng nghanol yr holl newidiadau a datblygiadau newydd bod ein iaith a'n diwylliant a'n ffordd o fyw yn cael eu diogelu a'u cryfhau. Rydym yn cael ein adnabod fel cymdeithas sy'n gofalu am eraill ac fel cymdeithas sy'n cynnal y gwan a'r anghenus. Yng nghanol prysurdeb ein byd mae'n bwysig i warchod y safonau hyn.

Ar ôl dweud hyn i gyd rwy'n ymwybodol mae materion sy'n ymwneud a chasglu ysbwriel, perchnogion ddim yn glanhau ar ôl eu cŵn a thyllau yn y ffordd fawr ar ôl tywydd garw yw'r pethau sy'n effeithio'r mwyafrif ohonom. Fel pob cynghorydd gwerth eu halen mi fyddaf yno yn cwffio ar gownt y materion yma eto yn 2020.

Rhys Thomas



# Bwrlwm yr ŵyl yn cynyddu wrth i'r amser nesáu!




Wrth i'r amser nesáu, cynyddu hefyd mae'r cyffro am Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020. Yn ogystal â pharatoi at y cystadlaethau o bob math, mae prysurdeb a pharatoi ymhlith plant ac ieuenctid y sir ar gyfer amrywiol sioeau a fydd yn ddi-os yn rai o uchafbwyntiau'r wythnos. Ac wrth i'r Eisteddfod gael ei lansio yn swyddogol ar Chwefror 14, gyda 100 diwrnod i fynd tan yr wythnos fawr, dyma ddyddiad pryd bydd tocynnau'r amrywiol gyngherddau a sioeau yn mynd ar werth, yn ogystal a thocynnau'r maes.

Dwy o'r rhain yw **Penawdau**, y sioe blant oed cynradd a **Dan y Fawd**, y sioe ieuenctid. Mae'r ddwy yn sioeau hollol wreiddiol wedi eu hysgrifennu gan ddau enw cyfarwydd o'r sir -

Penawdau gan Mali Williams, a Dan y Fawd gan Angharad Llwyd Beech sy'n cyfarwyddo ei sioe ei hun, gyda Catherine Jones yn Is-gyfarwyddwr ac Ynyr Llwyd yn gyfarwyddwr cerdd.

Meddai Angharad Llwyd am **Dan y Fawd**: "Mae gan y rhan fwya' o'r cymeriadau nodweddion symbolaidd yn perthyn i rai o bobl hanesyddol Sir Ddinbych. **Siôn** - sydd isio mynd yn Aelod Seneddol. Roedd 'na ddyn o'r enw Siôn y Bodiau yn byw yn Ninbych ers talwm - Siôn y Bodiau am fod ganddo fo ddau fawd ar bob llaw - ac mi roedd o'n Aelod Seneddol. Enw ei fab oedd Siôn hefyd - ac yn y sioe yma dwi wedi ei alw yn **Sionyn**. Roedd 'na ferch o'r enw Catrin o Ferain yn byw yn yr ardal hefyd - dynes ddeallus a phwerus - ac yn ein sioe ni, mae **Catrin** yn helpu i ddeffro'r bobl gyda help **Owain** - Owain Glyndŵr yn un arall o'r Sir a ddeffrodd y Cymry flynyddoedd maith yn ôl. Bydd cymeriad **Cêt** yn ddarllenwraig frwd, sy'n ein hatgoffa o Frenhines ein Llen, Kate Roberts. Mae gennym ni elfennau o Twm o'r Nant - sy'n rhannu straeon ar Instagram, a Thomas Gee o'r hen Wasg Gee - dyn y papur newydd."



Paratoi ar gyfer y Sioe Ieuenctid

Bydd **Penawdau**, a fydd yn cael ei pherfformio ar lwyfan y Pafiliwn, yn dod a hen storïau'r sir yn fyw trwy hanes swyddfa bapur newydd.

Bydd Cylch Rhuddlan yn ail-greu trip Ysgol Sul mewn siarabang i lan-y-môr Rhyl Bydd Cylch Rhuthun yn ail-greu dihangfa beiddgar Coch Bach y Bala o Garchar Rhuthun; Bydd Cylch Dinbych yn ail-greu digwyddiadau digri a difri' o gyfnod yr Ail Ryfel Byd yn yr ardal ac yna Cylch Edeyrnion yn ail-greu ymweliad Pavarotti a phartion o amgylch y byd ag Eisteddfod Llangollen.

**Bydd y Sioe Ieuenctid yn cael ei chynnal yn Theatr Elwy, Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy ar Fai, 2, 3 a 23. Mae tocynnau ar gyfer hon, y nosweithiau a gynhelir yn y Pafiliwn yn cynnwys y Sioe Gynradd, y Cyngerdd Agoriadol a thocynnau maes ar werth o Chwefror 14 ymlaen. Gellir eu prynu dros wefan yr Urdd urdd.cymru neu trwy ffonio 0845 257 1639.**

Cynghorydd

cyngor sir ddinbych

Mark John Young



Dinbych Isaf - Annibynnol

S: 07825 912554

www.sirddinbych.gov.uk

E:mark.young@sirddinbych.gov.uk


CEIR CLWYDIAN



Os ydych yn chwilio am
*brisiau cystadleuol
* dewis heb ei ail
* gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol

yna, galwch i'n gweld ar-

FFORDD RHYL, DINBYCH



neu ffoniwch
01745 816720 / 07900555009

# Elizabeth Lloyd, Bae Gwyn

*Am resymau anorfod, bu'n amhosibl cynnwys y deyrnged isod yn rhifyn mis Ionawr.*



Blingwyd y dref gyda cholli nifer o gymeriadau adnabyddus ym mis Tachwedd, yn eu plith Elizabeth (Beti) Lloyd, Bae Gwyn.

Gwraig ddŵad oedd Mrs Lloyd. Er iddi ymgartrefu yn y dref ers 1968, gwyddai pawb lle'r oedd ei gwreiddiau. Er treulio rhan helaethaf ei bywyd yn y Gogledd, roedd ei chalon yn y De.

Ganwyd Mrs Lloyd yn Llwydcoed, ger Aberdâr, yr ieuengaf o'r pump plentyn a anwyd i Evan a Mary Hannah Davies. Ei thad yn hanu o Gei Newydd, yn brif athro yn Aberdâr a'i mam yn wneuthurwraig hetiau o Tal y Llychie.

Mi roedd arfordir y Gorllewin yn dynfa naturiol i'r teulu a dreuliodd yr hafau rhwng y môr a'r mynydd, a thraethau Pen Bryn, Cwmtudu, Llangrannog a Cei Bach ac yn agoriad llygaid i'r plant a fagwyd yng Nghwm Cynon. Cofnodir hanes ei bywyd yn ei llyfr 'Teulu".

Er ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth, ac o ganlyniad i afiechyd ei thad, penderfynodd barhau ei haddysg nes adref yng Ngholeg Morgannwg, Y Barri, gan rhoi ei bryd ar fod yn athrawes.

Cychwynnodd ei gyrfa yn ysgol Penylan, Caerdydd cyn symud yn ôl i ddysgu yn ei bro genedigol yn Llwydcoed. Tra bod rhai yn cofio eira 1947, yr hyn a adawodd ei ôl yng nghof Mrs Lloyd, oedd y Sul rihyrsal Gymanfa'r Pasg. Dyna'r Sul pan y cyflwynwyd hi i weinidog ifanc, Parch William Thomas Lloyd, (Bill neu WT.) newydd ddyfodiad o'r coleg ac yn enedigol o Benbre a ordeiniwyd a'i sefydlu yn weinidog yn Seilo, Trecynon a Soar, Penderyn. Fe'i hunwyd mewn priodas yn 1950.

Yn 1957, symud bu hanes y ddau i Ynysmeudwy, pan sefydlwyd W.T. yn weinidog Bethesda. Symud bu hanes y ddau a Catrin i Wdig a Rhosycaerau, Sir Benfro yn 1963. Yn 1968 y daith i'r gogledd, yn deulu o bedwar, gyda genedigaeth Iwan erbyn hyn, pan sefydlwyd W.T. yn weinidog yn Lôn Swan, Ebeneser Ffordd-Las a'r Green.

Ergyd drom oedd colli ei phriod yn ddisymwth yn ystod haf 1976.

Bu Mrs Lloyd yn athrawes gydwybodol mewn nifer o ysgolion yn Sir Ddinbych, gan gynnwys Llanefydd ar ddiwedd ei gyrfa. Er yn athrawes, bu'n ddisgybl ar hyd ei hoes, gan ennill gradd y Brifysgol Agored ar ôl ymddeol ac yn ddiweddarach byth, lefel 'A' mewn arlunio.

Cadwodd Mrs Lloyd le cynnes yn ei chalon i Sir Benfro, ei morlin a'i dirlun a'i ddaeareg am weddill ei hoes, ffactorau a ysbrydolodd fel arlunydd.


O'i chofio, cydnabyddwn ei chyfraniad i fywyd yr Eglwys yn Lôn Swan, yn ddiacones ymroddgar, yn athrawes Ysgol Sul, yn Organyddes ac yn weithgar yn holl fywyd yr eglwys. Cyfrannodd hefyd yn helaeth i fywyd y dref a'r gymdogaeth.

Mi roedd Mrs Lloyd yn berson o ffydd gadarn, yn un ag argyhoeddiadau cryf, - mi roedd yn amlwg mai coch oedd ei gwaed o'i magu yng Nghwm Aberdâr. Mi roedd bob amser yn barod ei chymwynas, yn hael, yn gefnogol ac ystyrlon o eraill, yn ddoniol ac ar adegau yn ffraeth, yn mwynhau trafodaeth a dadl, - ond mi fyddai pobl yn ymdoddi yn ei gwên a llawenydd ei phersonoliaeth.

Cofiwn am Wraig, Mam, Mamgu a Mam-yng-nghyfraith tyner, penderfynol, cryf a dawnus a chyflwynwn ein cydymdeimlad cywiraf i Catrin ac Andy, Iwan a Sarah, Rhian, Ceri a Cai yn eu profedigaeth.


**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**

**Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**



*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141

repairs@evansautoclinic.com

## Cymdeithas Edward Llwyd
**Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru**

Dim ond os ydych mor hen â fi byddech chi'n sylweddoli gymaint mae'r hen fyd yma wedi newid. Dach chi'n cofio'r hen set weiarles yn craclo yng nghornel y lolfa? A mynd â'r batris mawr i'r garej lleol i'w siarsio? Mi wnaeth y byd symud ymlaen camau mawr pan ddoth y radio transistor, yr un roedden ni'n hongian ar ddrych y car er mwyn cael ryw fath o 'in-car entertainment'. I ni dyna oedd newid mawr.

Darllenais yn 'Y Times' yn ddiweddar am Robin Goch a oedd yn byw bywyd dedwydd yn Heligoland, roedd wedi penderfynu treulio'r gaeaf yn ne ddwyrain Lloegr. Aeth i chwilio am siop Thomas Cook ond doedden nhw ddim yna bellach. Beth i'w wneud? Cymerodd anadl ddofn ac ar un noson pan oedd gwynt ysgafn yn mynd yr un ffordd â fo dechreuodd ar y daith. Roedd hi'n wyth o'r gloch y nos a, chredwch neu beidio, roedd o wedi cyrraedd cyrion Llundain erbyn toc wedi hanner nos.

Ond sut ydan ni'n gwybod hyn? Roedd o'n gwisgo nanotag - erbyn hyn mae pob aderyn eisio un, dim ond 0.3 gram mae'r tag yn pwyso ond mae'n galluogi ni i astudio pa mor bell mae adar bach yn mynd o gwmpas i chwilio am dywydd gwell. Taith o 140 milltir roedd Robin wedi gwneud yn y pedwar awr yna, hynny yw 35 mya.

Mae gymaint i ddysgu am fyd natur ac mae technoleg yn datblygu'n gyflym i alluogi ni ddysgu'n llawer cyflymach. Tydi'r byd wedi newid ers yr hen weiarles dwedwch.

Edrychwch ar ein gwefan cymdeithasedwardllwyd.cymru i weld os ydan ni'n cerdded yn eich ardal. Bydd croeso mawr i chi. Yn enwedig os dach chi wedi bod mor garedig o ddysgu'n hiaith hyfryd ni.

Rob Evans



**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

**DBP**
**Home Improvements N.Wales**

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 818849**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**



**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

## Agor Enwebiadau Pumed Seremoni Gwobrau Mudiad Meithrin

Bydd y cyfnod enwebu ar gyfer Seremoni Gwobrau flynyddol Mudiad Meithrin sy'n cydnabod a dathlu'r gwaith da sy'n cael ei wneud ar lawr gwlad yn y darpariaethau, yn agor ar Ddydd y cariadon, Dydd Santes Dwynwen, sef y 25ain o Ionawr.

Mae Mudiad Meithrin yn chwilio am enwebiadau aelodau staff a gwirfoddolwyr Cylchoedd Meithrin, Cylchoedd Ti a Fi neu Feithrinfeydd Dydd am wobr mewn deg categori.

Meddai Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaethau Mudiad Meithrin:

*"Mae'r Seremoni Gwobrau yn rhoi cyfle i Mudiad Meithrin gydnabod a diolch i'n staff a'n gwirfoddolwyr ar lawr gwlad. Dyma gyfle i unrhyw un enwebu Cylch Meithrin; cylch Ti a Fi neu feithrinfa ddydd - am wobr mewn un o ddeg gwahanol gategori."*

Mae'r holl fanylion ar gael ar wefan Mudiad Meithrin - www.meithrin.cymru/enwebu - gyda gwahoddiad i bawb enwebu cylch neu feithrinfa sy'n gwneud gwaith da mewn amryw feysydd. Bydd y cyfnod enwebu ar agor hyd hanner nos Wener 6ed Mawrth 2020.

Ychwanegodd Leanne:

*"Y cyfan sydd rhaid gwneud yw nodi 3 rheswm pam eich bod yn enwebu. Mae modd i chi hefyd ychwanegu hyd at 3 llun i'r enwebiad."*

Ategodd Iola Jones, Pennaeth Cyfathrebu a Phartneriaethau'r Mudiad:

*"Mae gan bawb gyfle i enwebu hyd at ddeuddeg o'r gloch nos Wener y 6ed o fis Mawrth. Gobeithio y bydd pobl yn manteisio ar y cyfle i enwebu Cylch Meithrin, cylch Ti a Fi neu feithrinfa ddydd neu unigolion sy'n haeddu cydnabyddiaeth ac edrychwn ymlaen at dderbyn llu o enwebiadau yn ystod yr wythnosau nesaf!"*

Yn dilyn llwyddiant ysgubol y seremoni hon dros y pedair mlynedd ddiwethaf cynhelir y seremoni wobrwyo eleni yn Theatr y Werin, Aberystwyth bnawn Sadwrn 17 o Hydref. Yn ystod y seremoni hon byddwn hefyd yn anrhegu staff a gwirfoddolwyr sydd wedi rhoi dros 20 mlynedd o wasanaeth i'r Mudiad (mae modd lawrlwytho ffurflen enwebu 20 mlynedd o'n gwefan www.meithrin.cymru/enwebu/)

Bydd y panel dyfarnu'n cyfarfod ym mis Ebrill cyn cyhoeddi rhestr fer ar gyfer pob categori erbyn diwedd tymor yr Haf.




# Be? Dim Cig!

"Waeth imi gyfaddef ddim. Mae yna aelod o'n teulu ni yn llysieuwraig."

Dyna'r ffordd y byddai rhywun yn y gorffennol wedi ymateb i'r fath "bechod" yn y teulu.

Diolch i'r drefn rydym ni'n byw mewn oes oleuedig erbyn hyn.

Er, cofiwch, bu hi'n frwydr ddigon caled i'r ferch hon fedru darbwyllo aelodau hŷn o'r teulu nad oedd hi'n bwyta unrhyw fath o gig na physgod o gwbl.

A hithau wedi bod yn ferch fach a wirionai ar "chickenroll" a sôs coch!

"Beth am ddwy sleisen dena' o foiledham? Wneith hynny ddim drwg iti," fyddai cwestiwn ei nain iddi.

I nain darn wedi'i rostio oedd cig. Doedd boiled ham rywfodd ddim yn dod o dan y pennawd hwn!

Gweld ffatri brosesu cig ar y teledu a fu'r trobwynt ym mywyd y ferch.

Ac ers y noson honno bron i ddeng mlynedd ar hugain yn ôl fe lynodd at ei safbwynt.

Yn wir, pe bai yn bwyta cig yn awr, mae'n fwy na thebyg y byddai'n sâl fel ci.

" Be, dydach chi byth yn b'yta Big Mac na KentuckyFriedChicken?!"a "Be ydach chi'n ei gael ar bitsa?!" ydy ymateb anghrediniol y bobl ifainc y mae hi'n athrawes arnyn-nhw. Hyd yn oed yn ein hoes oleuedig mae'r bobl ifainc yma yn gegrwth wrth glywed nad ydy hi hyd yn oed yn bwyta "chickennuggets"!

Ar y cychwyn - o ran cael rhywbeth arall heblaw cig mewn bwytai – roedd y jôc am roi bwcedaid o foron i lysieuwr yn o agos i'w le.

Bellach mae bwydlen pob gwesty gwerth ei halen yn cynnwys dewis da o fwyd i lysieuwyr.

Wrth gwrs, erbyn hyn mae yna lawer o bobl wedi mynd gam ymhellach a throi yn feganiaid.

Dydyn nhw ddim yn bwyta unrhyw gynnyrch sydd â chysylltiad â chreaduriaid gan ddweud fod gan bob creadur hawliau.

"Dydwi ddim yn teithio ar fws i'r gwaith rhag ofn i'r bws daro a lladd aderyn neu bryfed," meddai un fegan.

Ar hyn o bryd mae'i sylw yn ymddangos yn eithafol i lawer ohonom, ond pwy a ŵyr efallai y bydd pawb yn derbyn safbwynt o'r fath mewn ychydig flynyddoedd.

Well imi roi gorau iddi rŵan. Mae'n amser hwylio bwrdd ar gyfer swper, ac rydan ni'n cael fy ffefryn heno - cig eidion a "YorkshirePudding"!

**StanLyall**



Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

“Y Transistor, a sut mae’n gweithio,” oedd testun darlith David Crawford ar Noson y Curadur ym mis Ionawr. Nid y Radio




Transistor bach o’r pumdegau - chwedegau roedd pobl ifanc yn eu defnyddio i wrando ar Radio Caroline a Radio Luxemburg, ond y transistor bach a ddyfeisiwyd gan William Shockley a’r ‘Solid State Physics Group’ yn 1947. Pwrpas y transistor oedd mwyhau tonnau radio, awdio ac ati, a buan y gwnaethon nhw ddisodli falfiau. Maen nhw’n cael eu defnyddio yn helaeth heddiw ym maes technoleg gwybodaeth, yn y radio, teledu, cyfrifiadur a’r ffôn symudol er enghraifft. Mae ein byd modern yn hollol ddibynnol arnyn nhw, i ddweud y gwir. Nododd David fod ‘na fwy o dransistorau yn yr ystafell ddarlithio nag sydd o bobl ar wyneb y ddaear.

Mwynhaodd Cymdeithas Hanesyddol Caerwys eu hymweliad â’r Amgueddfa un noson, fel y gwelir yn y lluniau.

Mae’n bosib trefnu ymweliad â’r Amgueddfa ar unrhyw adeg sy’n gyfleus i chi trwy gysylltu â gwybod@gwefrhebwifrau.org.uk

Cynhelir ein cyfres ddarlithiau ar nos Wener am 7 o’r gloch, yn yr Amgueddfa:

Chwefror 21ain - bydd John Barr yn siarad am “Adeiladu Twnnel Conwy”.

Mawrth 20fed - bydd Dr. Hywel Watkin yn cyflwyno Darlith Flynyddol David Edward Hughes, ac yn siarad am “Humphrey Llwyd y Cartograffwr o Foxhall”.

Ebrill 3ydd - bydd Mike Farnworth yn siarad am “Ffynhonnau sanctaidd Cymru – cyswllt byw â’r gorffennol paganaidd”.

Mai’r 15fed - bydd Alison Bromley yn siarad ar “Ymchwilio i Hanes eich Teulu”.

Mehefin 19eg - bydd Eurig Jones yn siarad am “Ein Harfordir Gwyllt”.

Bydd ein Boreau Coffi codi pres i Gwefr heb Wifrau ac elusenau lleol eraill ar Fawrth 7fed yn yr Amgueddfa ac ar Fehefin 6ed yn Eirianfa.

Croeso cynnes i bawb!








Ymweliad Cymdeithas Hanesyddol Caerwys





**Tŷ Te a Delicatessen**
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk
**01745 816576**


/gwasg.com PRINT
ARGRAFFU
DYLUNIO GRAFFEG
PAPUR PENNAWD › CARDIAU BUSNES
LLYFRYNNAU › POSTERI
TAFLENNI › PAMFFLEDI
BANERI › BANERI RHÔL › FFLAGIAU
ARGRAFFU O FFEIL › SCANIO I FFEIL
ARGRAFFU FFORMAT BRAS
ARGRAFFU CYNLLUNIAU
LAMINEIDDIO › RHWYMO
Cefn 24 Stryd Elwy, Y Rhyl LL18 1BP
01745 331411 | info@gwasg.com | www.gwasg.com
GwasgPrint

## Atebion Ionawr 2020

**Ar Draws :**
6. Adferiad
8. Anorac
10. Helynt
11. Limrigwr
12. Cwiltiog
13. Lafant
14. Cysgodi
17. Isotherm
20. Aelwyd
22. Siaradus
25. Ategolyn
26. Carbon
27. Unfarn
28. Adleisio

**I Lawr :**
1. Sefydlog
2. Mintai
3. Adolygu
4. Canmolus
5. Cofiaf
7. Dienw 9. Achwynwr
15. Y Pentan
16. Didalent
18. Theatraidd
19. Asennau
21. Wigwam
23. Alcali
24. Unoli

## CROESAIR CHWEFROR 2020



**Ar Draws :**
1. Cam hir
5. Barus
9. Dull adnabod lleoliad ar awyren
10. Person sydd biau eiddo
11. Safle diogel
12. Mae wyth o'r rhain yn y cliw yma
14. Llyncu hylif 16. Cyfalaw gan lais uchel
18. Ymborthwr
19. Nid alcali
22. .... Goleugoed, pentref bychan ger Trefnant
23. Seryddiaeth
26. Lle i guddio
27. Coeden a lliw
28. Oherwydd
29. Tîm o Lundain yn Uwch Gynghrair Lloegr

**I Lawr :**
1. Llwydrewi
2. Enw bachgen
3. Y cyflwr o ragoriaeth
4. Beic modur ysgafn
5. Y cyflwr o bwyso gormod
6. Enw bachgen
7. Hawl
8. "Gymerwch chi .......?", drama gan Saunders Lewis
13. Hoff fwyd Popeye?
15. Dod o hyd i rywbeth
17. Heb fod yn eithafol
18. Rhyfela
20. Diddig
21. Rhydd o berygl
24. Atyniad
25. Brwyn

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych
Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840
GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

# Neges Dyfodol i’r Iaith ar ddechrau degawd

Yn ddiweddar, clywsom gan ymchwilwyr o Seland Newydd fod dyfodol y Gymraeg yn ddiogel, ac yn wir, y bydd 74% o’n poblogaeth yn ei siarad erbyn 2300. Newyddion gwych, a’r datganiad hwn a gipiodd y penawdau, gan ein bod ni i gyd angen ychydig o newyddion da ar ddechrau degawd ansicr.

Ond, yr oedd amod allweddol ynghlwm â’r newyddion da, gan i’r ymchwil hefyd ddatgan mai “bregus” fydd statws y Gymraeg dros y 50 – 100 mlynedd nesaf. Ar lawr gwlad, gwyddom ei bod yn gyfnod tyngedfennol a gwyddom yn iawn fod rhwystrau fyrdd i oroesiad yr iaith. Os na allwn eu gorchfygu ar fyrder, waeth i ni anghofio edrych ymlaen at y canrifoedd i ddod!

Mae’r Llywodraeth eisoes, wrth gwrs, wedi gosod nod o gynnydd – miliwn o siaradwr y Gymraeg erbyn 2050, a’n dyletswydd ni yw sicrhau eu bod yn ymrwymo i’r trywydd gorau er mwyn cyflawni hyn.

Mae creu mwy o siaradwyr Cymraeg yn galw am fwy o ddefnydd o’r Gymraeg a mwy o awydd a chyfleoedd i’w siarad a’i dysgu. Nid ar sail un polisi na deddf mae cyflawni hyn, ond yn hytrach drwy gynllun strategol cynhwysfawr, sy’n cyfuno gweithgaredd holl adrannau’r Llywodraeth, cyfraniad y sector gyhoeddus ehangach, mewnbwn arbenigwyr iaith a’n hymrwymiad ninnau (yn unigolion a chymunedau).

Mae gennym ni i gyd syniad o beth sydd ei angen a byddwn ni i gyd yn cytuno fod myrdd o bethau i’w hystyried os ydym am adfer y Gymraeg. Cymerwn Addysg fel enghraifft amlwg. Os ydym am sicrhau addysg Gymraeg, yna mae’n rhaid cael mwy o athrawon sy’n gallu dysgu holl bynciau’r cwricwlwm drwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy’r holl gyfundrefn addysg. Mae angen mwy o ysgolion Cymraeg, wrth gwrs, ond rhaid cofio pwysigrwydd addysg blynyddoedd cynnar a chyfraniad yr aelwyd fel sylfaen. Bydd angen cefnogi addysg Gynradd Cymraeg gydag addysg Uwchradd Gymraeg, a chyfleoedd i ddisgyblion siarad Cymraeg y tu allan i’r ysgol. O ddilyn y llinyn amser y tu hwnt i’r ysgol, rhaid ystyried cyfleoedd addysg bellach ac uwch, ac yna faint o fri a roddir i’r Gymraeg yn y gweithle.

Un maes ydi hwn, ac fe welwn yn barod y lefel a’r ehangder o ymrwymiad ac ymdrech sy’n angenrheidiol er mwyn sicrhau’r canlyniadau gorau. Yn yr un modd, rhaid edrych ar y gymuned, a’r holl bethau sydd angen i Gymreigio ein bywydau o ddydd-i-ddydd, ein horiau hamdden a’r cyfleoedd i gymdeithasu. Ychwaneger at hyn hanfod economi sy’n cefnogi’r Gymraeg a chynnig anogaeth a modd i bobl ifanc aros yn eu cymunedau. Gellir ychwanegu at hyn oll yr angen am bolisïau tai a chynllunio sy’n hybu yn hytrach na llethu’r Gymraeg.

Nid yw’n amhosib’ cyfuno’r holl elfennau hyn na sicrhau fod pawb yn gweithio i’r un perwyl. Yn anffodus, yr hyn sydd ar goll yng Nghymru yw strwythur rheoli fyddai’n caniatáu a hwyluso’r math o waith integredig dwys sydd ei angen mewn cyfnod mor allweddol i hanes y Gymraeg.


O fewn y Llywodraeth, mae’r cyfrifoldeb am yr iaith yn gorwedd gydag Is-adran y Gymraeg. Lleolir yr Is-adran yng nghrombil y gwasanaeth sifil, yn rhan o gadwyn faith o atebolrwydd, sy’n rhoi’r Gymraeg mewn sefyllfa anobeithiol o israddol o safbwynt sicrhau ymrwymiad a chyfraniad hanfodol yr adrannau eraill i adfywiad y Gymraeg.

Yn amlwg, rhaid wrth strwythur cryfach, un sy’n gallu rhoi arweiniad cadarn i’r gwaith ac sy’n gymwys i gydlynu’r holl arbenigedd sy’n bodoli’n barod er mwyn gweithredu’n gynhwysfawr a di-fwlch ar draws y nifer o amryfal feysydd sy’n berthnasol i lwyddiant y Gymraeg. Gall hyn olygu sefydlu Asiantaeth neu gryfhau statws Is-Adran y Gymraeg, ond beth bynnag fyddo fwyaf ymarferol, y flaenoriaeth yw sicrhau corff grymus y mae pawb yn ei adnabod a’i barchu.

Mae angen gosod sylfaen newydd ar fyrder, gan mai tameidiog a di-ffocws fydd unrhyw gynnydd dan y drefn gyfredol. Rhaid cael sail a strwythur i roi’r holl uchelgais ac ewyllys da ar waith. Heb hyn, ni allwn gymryd ymchwilwyr Seland Newydd ar eu gair ac edrych ymlaen at oes euraidd i’n hiaith – bydd angen ymdrech arwrol dros y blynyddoedd a’r degawdau nesaf.

Os ydych yn cytuno â ni, neu am wybod mwy, byddwn yn falch iawn o glywed gennych.

**"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"**



*Cafwyd hyd i'r erthygl hon gan Bobi Owen ym Mocs y Bigwn y llynedd, heb ei chyhoeddi efallai achos fod ganddi'r un teitl ac un arall o'i eiddo ond mae'r cynnwys yn gwbl wahanol. Dwi'n siŵr y byddai o yn gwbl hapus i ni ei chyhoeddi er cof amdano.*

# Nid byd, byd heb wybodaeth

Mae sawl ardal yn Ninbych yn cael ei chysylltu â ffynnon – Ffynnon Barcer, Ffynnon Carter, Ffynnon Siarnel, Llys y Ffynnon, Teras Brynffynnon ac efallai'r amlycaf ohonynt, sef tŷ nobl Bronffynnon ar Stryd y Bont, fan ble mae'r feddygfa. Yma y bu'r bardd/feddyg John Gruffydd Thomas, a adnabyddid fel 'Deryn y Nos', o achos ei arferiad o ymweld a'i gleifion yn ystod oriau mân y bore, a'i fab, Dr Gwyn, yn gwasanaethu cleifion y dref am flynyddoedd.




Ar wal ffrynt y tŷ mae plac yn dangos mai yma y ganwyd y bardd William Williams, (Caledfryn) 1801-1869. Bedyddiwyd ef yn Eglwys Ilar yn y castell. Ei dad oedd Thomas Williams, mab Owen Williams, Berth Ddu, Llanrwst, a'i fam oedd Mary Roberts, merch William Roberts, Tan yr Onnen, Llannefydd.

Gwehydd llwyddiannus oedd Thomas Williams yn byw mewn amgylchiadau cysurus iawn ac yn cyflogi dau weithiwr a phrentis. Pan fyddai Mrs Williams yn cynorthwyo gyda'r busnes byddai nyrs yn gofalu am y plant – saith ohonynt yn y teulu. Ond, yn anffodus, crebachodd y farchnad a bu rhaid i'r teulu fudo o foethusrwydd Bronffynnon i dlodi Stryd Henllan.

Yr oedd rhieni Caledfryn yn aelodau ffyddlon yn y Capel Mawr, oedd newydd ei agor ym 1793, Yn ifanc iawn, dodwyd Williams mewn ysgol yno, a dywedwyd ei fod yn gallu darllen ei Feibl yn Saesneg a Chymraeg cyn ei fod yn saith oed. Wrth iddo gyrraedd ei arddegau, bwriad y tad oedd iddo gael ei brentisio fel fferyllydd ond, er syndod i bawb, yn bedair ar bymtheg oed, agorodd ysgol yma yn Ninbych a pharhaodd felly am bum mlynedd.

Yn y flwyddyn 1826, ac yntau erbyn hyn wedi penderfynu mai ym myd llenyddiaeth oedd ei ddyfodol, fe gyhoeddodd lyfr – Grawn Awen – ac aeth ar daith drwy Gymru i'w werthu. Tra'n crwydro'r wlad, mynychodd seiadau'r Annibynwyr a hefyd nifer o eisteddfodau a daeth y wybodaeth am hyn i glustiau dau o swyddogion y Capel Mawr, sef Moses Parry a John Roberts (Cantwr Mawr y Gogledd). Pan ddaeth adref, bu William druan dan gerydd llym gan nad oedd y Calfiniaid yn caniatáu ymddygiad o'r fath. Yn ystod y cyfnod yma, enillodd William, oedd erbyn hyn wedi mabwysiadau'r enw barddol 'Caledfryn', wedi dechrau cystadlu o ddifri ac ennill nifer o wobrau. Gwaethygodd y sefyllfa rhyngddo ef a'i gyd aelodau yn y capel, a gofynnwyd iddo benderfynu a oedd am roi'r gorau i'r busnes eisteddfota neu am eu gadael gan ofyn, "Ble'r ewch chi, at ein mam neu at ein chwaer?" Y fam wrth gwrs oedd yr Eglwys Sefydledig a'r chwaer, Capel yr Annibynwyr. Bore drannoeth aeth at un o ddiaconiaid Capel Lôn Swan ar ben arall y stryd a mynegodd ei fwriad o gynnig ei hun fel aelod. Gwelodd y gweinidog yno, sef y Parch David Roberts, fod yn Caledfryn gymwysterau neilltuol i fod yn bregethwr ac fe'i derbyniodd gyda breichiau agored.

Yn lled fuan wedi iddo ddechrau pregethu, aeth ar gwrs diwinyddol i Goleg Rotherham ond ni arhosodd yno ond am rhyw dri mis. Aeth ar daith bregethu trwy Gymru, ac yn 1828 derbyniodd alwad gan eglwys Peniel, Llannerch-y-medd, yn Sir Fôn. Yno, llwyddodd i adeiladu capel newydd. Yn 1831, symudodd i eglwys Pendref, Caernarfon, ac ymhen y flwyddyn, priododd wraig o'r enw Griffiths. Bu iddynt ddau o blant, Margaret Mary a William.

Bu yno bron am ddwy flynedd ar bymtheg cyn derbyn galwad gan eglwys Gymraeg, Aldersgate Street yn Llundain. Yn anffodus, dirywiodd iechyd y teulu bach yn awyrgylch niweidiol y ddinas, a bu rhaid iddynt ddychwelyd i Gymru, y tro hwn i Lanrwst. Ar y 28ain o Chwefror 1855, bu ei briod farw ac ymhen y flwyddyn fe symudodd i Fangor i ofalu am eglwys fach Beulah. Yn y cyfamser, priododd am yr ail waith, y tro hwn gyda Mrs Edwards, gweddw Dr



William Williams (Caledfryn)

Edwards o Ddulun. Symudodd am y tro olaf y flwyddyn ganlynol i hen eglwys Groeswen, Sir Forgannwg ac yno yr arhosodd hyd ddiwedd ei oes. Ond unwaith eto daeth profedigaeth i'w ran a bu farw ei ail wraig yn 1858. Priododd am y drydedd waith gyda gweddw arall, un Mrs Hughes o Fachynlleth a bu hi yn gymorth arbennig iddo hyd ei farwolaeth ym 1869 ac yntau'n 68 mlwydd oed.

Er ei fod yn weinidog amlwg gyda'r Annibynwyr, efallai mai fel bardd yr adnabyddid Caledfryn orau. Fel y crybwyllwyd eisioes, dechreuodd gystadlu yn ystod ei arddegau, ac yn 1863, yn Eisteddfod Biwmares, enillodd y gadair am ei awdl enwog, 'Drylliad y Rothsay Castle' gan drechu, ymhlith eraill, Eben Fardd. Yn Eisteddfodau Y Fenni 1838, a Rhuddlan, 1850, fe gipiodd y gadair eto. Dywedodd y Parch Elfed Lewis amdano, 'Cywirdeb meddwl ac iaith, dyna nerth Caledfryn'. Bu'n feirniad yn Eisteddfodau Cenedlaethol Caernarfon 1862, Rhyl 1864, Aberystwyth 1865 a Chaerfyrddin 1867.

Disgleiriodd hefyd fel awdur ac y mae rhestr ei gyhoeddiadau yn faith. Soniwyd eisioes am Grawn Awen, 1826, ac ym 1856 fe gyhoeddodd Gramadeg Cymraeg, ac ychydig fisoedd wedyn, casgliad o'i Ganiadau yn cynnwys awdlau, cywyddau, englynion a phenillion. Yn 1860 cyhoeddodd gasgliad o emynau o'i waith ei hun a dewisiad o wahanol awduron eraill. Ef hefyd oedd golygydd nifer o gylchgronau'r cyfnod – Y Sylwebydd, Seren Ogleddol, Yr Amaethydd, Y

Gwladgarwr, Seren Cymru a'r Dysgedydd.
Bu galw mawr am ei wasanaeth fel darlithydd, yn arbennig ar destunau fel Rhyfel a Heddwch, Addysg a Rhagluniaeth. Cefnogai yn frwd achosion radicalaidd megis y Gymdeithas Heddwch, a gohebai lawer â rhai o brif lenorion Cymru a Lloegr ac yr oedd ganddo yn ei feddiant lythyrau oddi wrth Gwilym Peris, Ieuan Glan Geirionnydd, Gwallter Mechain a channoedd o enwogion ei gyfnod (ychwanegiadau go sylweddol i'm casgliad personol i!).
Ie, Cymro go bwysig oedd William Williams, un nad oes efallai digon o sylw wedi ei dalu i'w orchestion. 'Does dim ond un Thomas Edwards (Twm o'r Nant), dim ond un Saunders Lewis a dim ond un Kate Roberts and y mae sawl William Williams – yn eu plith Pant y Celyn, Watkin Wyn a Williams o'r Wern.



Bron y Ffynnon

Tybed a yw mawredd Caledfryn wedi ei guddio gan gysgodion y rhain?
I gloi, ymhlith y rhai sy'n gallu hawlio cysylltiad teuluol ag ef mae Mrs Coral Lloyd, 5 Bryn Onnen o'r dref hon a'i diweddar frawd wedi ei fedyddio'n David Caledfryn Davies.

R.M.(Bobi) Owen

Plaid Cymru | Party of Wales
Llyr Gruffydd AC

Am unrhyw gymorth cysylltwch â fy swyddfa:
Llyr Gruffydd AC
Canolfan Fusnes Birch House
Hen Lôn Parcwr
Rhuthun
LL15 1HN
01824 703593
Llyr.Gruffydd@cynulliad.cymru
Yn gweithio dros y gogledd
@LlyrGruffydd
www.llyrgruffydd.cymru
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

## Cyrsiau hyfforddi newydd i helpu pobl hŷn i adnabod a herio oedraniaeth

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi cyhoeddi ei bod yn cyflwyno cyfres newydd o sesiynau hyfforddi i helpu pobl hŷn i adnabod a herio oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran.
Bydd y sesiynau hyfforddi yn helpu cyfranogwyr i ganfod oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran mewn amrywiaeth o leoliadau - er enghraifft yn y gweithle, iechyd, gofal a gwasanaethau eraill, ac yn y cyfryngau - yn ogystal ag edrych ar y ffyrdd i allu herio oedraniaeth.
Mae'r hyfforddiant hefyd yn ymdrin â'r ddeddfwriaeth y gellir ei defnyddio i herio oedraniaeth a'r sefydliadau a all ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth os bydd rhywun yn gweld neu'n profi oedraniaeth.
Datblygwyd yr hyfforddiant fel rhan o waith y Comisiynydd i roi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, yn dilyn lansio'i Hymgyrch #EverydayAgeism ym mis Hydref, sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd y mae oedraniaeth yn effeithio ar bobl hŷn ac ar gymdeithas, a newid agweddau fel nad yw'r oedraniaeth y mae pobl hŷn yn ei wynebu bob dydd yn cael ei ystyried yn dderbyniol mwyach.
Dywedodd Heléna Herklots CBE, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru:
"Mae Oedraniaeth yn sail i lawer o'r problemau a wynebir gan bobl hŷn mewn cymdeithas heddiw ac rydym yn cael ein llethu bob dydd gan iaith a delweddau o oedraniaeth sy'n atgyfnerthu'r stereoteip ynglŷn â phobl hŷn.
"Mae hyn yn golygu, yn anffodus, ein bod yn parhau i weld gwahaniaethu ar sail oedran yn y gweithle, o fewn gofal iechyd a gofal cymdeithasol a gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill, yn ogystal ag ar hyd a lled y cyfryngau a hysbysebu, sy'n effeithio'n negyddol ar iechyd a lles pobl hŷn mewn sawl ffordd.
"Ond er gwaethaf ei amlder, dywed 1 o bob 5 o bobl hŷn yng Nghymru na fyddent yn hyderus wrth ganfod nac wrth herio oedraniaeth.
"Dyna pam fy mod yn cynnal cyfres newydd o sesiynau hyfforddi ar fynd i'r afael ag oedraniaeth ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru - i'w helpu nhw i adnabod oedraniaeth a gwahaniaethu ar sail oedran, a'u galluogi i'w herio."
I gael rhagor o wybodaeth am y sesiynau hyfforddi, neu i archebu'ch lle, ewch i wefan y Comisiynydd – www.olderpeoplewales.com – neu ffoniwch swyddfa'r Comisiynydd ar 03442 640 670.
Lleoliadau a dyddiadau'r sesiynau yn y gogledd yw
Wrecsam
05 Mawrth 2020
Bangor
11 Mawrth 2020

# Ysgol Glan Clwyd

Ar nos Iau, Rhagfyr 19eg 2019, cynhaliwyd ein Cyngerdd Nadolig blynyddol. Roedd y Gadeirlan yn llawn ar gyfer y cyngerdd, ac roedd hon yn noson ble cawsom wir naws y Nadolig trwy wrando ar unigolion, partïon a chorau yn cymryd rhan. Hwn oedd y Cyngerdd olaf o dan arweiniad Mr Tudur Eames wrth iddo fo symud ymlaen i swydd newydd.



Parti Llefaru merched Bl 13 yn y Cyngerdd Nadolig



Côr Bl 7 – 9 o dan arweiniad Ms Manon Tudur




Côr staff o dan arweiniad Mr Tudur Eames



**Pêl droed Ysgolion Cymru**

Llongyfarchiadau mawr i ferched Bl 9 a 10 ar eu llwyddiant yn erbyn Ysgol Bodedern yng Nghystadleuaeth Pêl droed Ysgolion Cymru yn ddiweddar.




**First LegoLeague**

Llongyfarchiadau i 'Tîm_Egni' ar ddod yn Bencampwyr Gogledd Cymru yn y gystadleuaeth ym Mae Colwyn ganol Mis Ionawr. Llwyddasant i guro dros 20 o dimau eraill ar draws Gogledd Cymru a'r Gororau. Aelodau y tîm eleni yw Gwenllian Emmett, Harriet Knapp, Gwion Willliams a Jake Chow. Mi fyddan nhw yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol ar gyfer Prydain ym Mryste ym mis Chwefror. Cewch fwy o'u hanes tro nesaf.




Croeso i Mrs Lona Meleri Jones i'n plith fel Pennaeth yr Adran Gerdd, ac i Mr Robin Powell-Davies fel athro Mathemateg dros gyfnod mamolaeth Ms Sioned Charters. Gobeithio y byddwch chi'n hapus yn ein plith.

**Chwaraeon yr Urdd**

Bu 2 dîm o'r Ysgol yn chwarae yng nghystadleuaeth 5 bob ochr ym Mangor yn ddiweddar. Cafodd y ddau dîm hwyl da ar y chwarae ond canlyniad y gêm yn derfynol oedd Ysgol Glan Clwyd 1 Ysgol David Hughes 0. Da iawn chi

# Ysgol Twm o'r Nant

Dyma ni wedi cyrraedd dechrau yr ail dymor yma yn Ysgol Twm o'r Nant a phawb yn mwynhau eu themâu newydd.

Rydym wedi croesawu teulu newydd i'r ysgol o Lundain. Mae'r 4 o blant sydd wedi dod yn awyddus iawn i ddysgu Cymraeg, a ble orau i wneud hyn nag yn Ysgol Twm o'r Nant. Rydym yn gobeithio y gwnânt ymgartrefu gyda ni a meistroli iaith y nefoedd yn sydyn.

Rydym yn brysur iawn ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Mae'r ymarferion canu, llefaru ac ati wedi cychwyn a'r gwaith celf yn dod yn ei flaen yn dda. Mae'r rhai sydd am fod yn ran o CogUrdd yn brysur yn ymarfer eu ryseitiau. Edrychwn ymlaen at fwy o fwrlwm yr Eisteddfod yn ystod y misoedd nesaf.

Llongyfarchiadau mawr i'n cogyddes Mrs Jane Jones ar ddod yn lwyddiannus ac ennill rownd Cymru yng nghystadleuaeth Cogydd ysgol gorau unwaith eto. Bydd hi yn cynrychioli ein gwlad yn y rownd derfynol ym mis Mawrth. Pob lwc Mrs Jones a 'da ni yn lwcus iawn o'ch cael yn coginio bwydydd blasus i ni oll yn yr ysgol.

***Llun ar y clawr ôl***

Dymuniadau gorau i nofwyr chwim yr ysgol yng ngala nofio yr Urdd yn Nghaerdydd ddiwedd Ionawr. Edrychwn ymlaen i glywed eich hanes ar ôl cystadlu.

**Yr Uned dan 5**

Croeso mawr i ddau blentyn newydd sydd wedi dechrau yn yr Uned dan 5 ar ddechrau'r flwyddyn, mae Ezra a Taha wedi symud o Lundain i Ddinbych ac mae eu teulu yn awyddus iddyn nhw ddysgu i siarad Cymraeg.

Ein thema y tymor yma yw'r stori Un nos o rew ac eira ac mae plant yr Uned wedi bod yn brysur yn paratoi ar gyfer y tywydd oer. Mae llun ar y clawr ôl o Ava, Ava a Leusa yn gwneud bwyd i'r adar.

Mae un o'n hardaloedd chwarae rôl wedi troi yn fwthyn i Persi ceidwad y parc ac un arall yn siop ddillad. Roedd Peyton ac Esme wrth eu boddau yn gwisgo i fyny ac actio'r stori.

Gan nad oes eira go iawn wedi disgyn yn Ninbych eto aeth y plant ati i greu eu heira eu hunain gan ddefnyddio sebon siafio! Wel am hwyl gafodd Cadi, Erin ac Esme!

Rydym wedi bod yn gwella ein sgiliau mân trwy godi peli eira efo gefail fach. Diolch i ti Gwil am glirio llwybr at fwthyn Persi.

***Lluniau ar y clawr ôl***

**Uned Dan 9**

Yn yr Uned Dan 9 rydym yn cael teithio yn bell fel rhan o'n thema gofod a robotiaid. Bu'r plant eisioes yn brysur yn ymchwilio i gysawd yr haul a sut mae'r planedau yn cylchdroi ar wahanol orbitau. Cawsant hwyl yn ail greu hyn ar fuarth yr ysgol.

***Llun ar y clawr ôl***

Mae 8 o'r uned wedi bod yn brysur yn gweithio fel tîm Lleisiau Bach, dan ofal Mr Arwyn Roberts, yn ceisio gwneud newid i'n cymuned a'r byd. Mae'r grŵp wedi penderfynu ceisio casglu arian i elusen a all roi dŵr i wledydd llai ffodus na ni. Cawsom wasanaeth hyfryd gan y criw a gweithgareddau gan Arfona o Ddŵr Cymru ac Arwyn o Lleisiau Bach.

***Llun ar y clawr ôl***

Hoffem ddymuno pob hwyl i'r disgyblion fydd yn cymryd rhan yn y gystadleuaeth Pêl Rwyd Dyffryn Clwyd a Nofio yr Urdd.




**Uned Dan 11**

Mae cychwyn blwyddyn newydd yn golygu cychwyn Thema newydd yn yr Uned dan 11. Y 60au yw'r thema eleni lle bydd y disgyblion yn ymchwilio am y glaniad ar y lleuad, The Beatles, a sut roedd pobol yn byw yn y 60au. Cofiwch os oes gennych rhywbeth i'w rannu byddem yn falch iawn o glywed eich hanes!

Cafodd ein dewiniaid digidol lawer o hwyl yn dysgu am apiau newydd a defnydd o 'animation' gyda Robin Williams yn ysgol Dewi Sant, Y Rhyl, ac maent yn awyddus iawn i ddangos yr hyn a ddysgon nhw i weddill disgyblion yr ysgol.






**RHYBUDD**
Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.
**Gofynnwn i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod:-**
wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn**
wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn**.
Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.
**Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r Bigwn, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:**
Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **YBigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysir.

*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk
Golden Charter Funeral Plans
SAIF Independent Funeral Directors

## Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch 2020

Estynnir gwahoddiad i gwmnïau drama i ddod draw i Gorwen i gystadlu yng **Ngŵyl Ddrama Corwen** a gynhelir yn Neuadd Edeyrnion nos Iau - nos Sadwrn, Mai 7-9fed.

Cynigir y cystadlaethau canlynol:


- **Perfformio drama un act Gymraeg agored**
- **Perfformio drama un act gan actorion dan 30 oed**
- **Perfformio drama un act gan actorion dan 18 oed**
- **Cyflwyniad pum munud o hyd gan grŵp o ddysgwyr**
- **Cyflwyno Monolog neu Ymgom bedwar munud o hyd yn agored i bob oed**
- **Ysgrifennu drama un act**

Bydd tlysau a chwpanau yn cael eu cyflwyno i actorion a chwmnïau gorau yn y gwahanol gategorïau yn ogystal â gwobrau ariannol.

Beirniad y cystadlaethau llwyfan yw'r actor a'r darlithydd, Huw Garmon
Beirniaid y gystadleuaeth ysgrifennu drama un act yw Meinir a Gwion Lynch, Llangwm, sgriptiau i Bobl y Cwm.
Dylid anfon y gwaith i'r ysgrifennydd erbyn Ebrill 1.

Am fwy o fanylion neu ffurflen gais, (dyddiad cau dychwelyd ffurflen gais yw Mawrth 31), cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Nia Jones, Pantrhedynog, Glyndyfrdwy, Corwen. LL21 9BN. Ffon: 01490 430207. Ewch i'n Gweplyfr Gŵyl Ddrama Corwen a'r Cylch am fwy o fanylion.

# "Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"


MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

## Dinbych – Tref Masnach Deg




Yn ddiweddar, mae Grŵp Masnach Deg Dinbych wedi derbyn achrediad adnewyddu ar gyfer Tref Masnach Deg, gan wneud Dinbych yn Dref Masnach Deg tan Dachwedd 2021. Gweithiodd y grŵp yn galed yn ystod y broses ymgeisio, gan roi manylion yr holl ddigwyddiadau lleol lle ddefnyddiwyd cynhyrchion Masnach Deg, manylion gwaith ymgysylltu â'r gymuned a chysylltiadau ag ysgolion lleol.

Mae'r grŵp bellach yn edrych ar ddigwyddiadau yn ystod Pythefnos Masnach Deg ac yn cynnwys ysgolion lleol trwy gyflwyno'r Gystadleuaeth Poster am yr ail flwyddyn. Bydd posteri yn cael eu beirniadu a chyhoeddir yr enillwyr yn ystod Pythefnos Masnach Deg, sef Chwefror 24ain - 8fed Mawrth.

Unrhyw un sydd â diddordeb mewn ymuno a grŵp Masnach Deg Dinbych, cysylltwch â Carys ar 01745 815984

neu admin@denbightowncouncil.gov.uk

CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

Osian Roberts LLB . Gwenllian Huws LLB . Lois Griffiths LLB LLM
29 FFORDD RHUTHUN, DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817   E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

# Mind Dyffryn Clwyd

Pan ddechreuais fy hyfforddiant seiciatryddol yn Ysbyty Gogledd Cymru yn 1966 dywedwyd fod un person o bob saith o'r boblogaeth yn dioddef o salwch meddwl a oedd angen ymyrraeth feddygol. Erbyn heddiw mae'r gymhareb honno wedi cynyddu i un person ym mhob pedwar. Dywedwyd bod darpariaethau i ddelio â'r sefyllfa bresennol yn aml yn annigonol i ymateb i'r galw cynyddol, ac mae llawer agweddau o'r galw hwn bellach yn cael eu gweithredu gan sefydliadau gwirfoddol fel MIND.

Yr oedd y ddiweddar Mrs Ceinwen Jones, Accar y Forwyn yn un o'r arloeswyr a sefydlodd 'MIND Dyffryn Clwyd' yn 1979. Mae'r gymdeithas leol wedi tyfu o ddechrau diymhongar i sefydliad sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau yn Sir Ddinbych. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys, cartref preswyl i oedolion iau, cynllun tai â chymorth, canolfannau dydd a chanolfannau galw heibio, rhandiroedd garddio ac ar gyfer pobl sy'n mwynhau cerddoriaeth, mae gennym gôr cymysg â grwpiau Ukulele.

Ar hyn o bryd mae MIND Dyffryn Clwyd yn chwilio am Ymddiriedolwyr i ymuno â'r Bwrdd. Yr ydym yn chwilio am bobl sydd â phrofiad / cefndir o bob agwedd o alwedigaethau a'r gallu i drosglwyddo eu sgiliau er budd defnyddwyr y gwasanaeth.

Os oes diddordeb gennych, gallwch gysylltu â Philip Williams, Prif Weithredwr am fwy o fanylion. p.williams@valeofclwydmind.org.uk 01745336787

Dafydd Lloyd Jones

# *Y BIGWN YSGRIFENNYDD*

Rydym yn chwilio am ysgrifennydd i weithio ar eich papur bro poblogaidd. Sgiliau cyfrifiadurol a chysylltiad e-bost yn fantais i'r swydd.
Does dim gwaith golygu ynghlwm wrth y gwaith.

Cysyllter â: -
Bedwyr Griffiths 01745 814497
ed321@btinternet.com
neu â:-
Stan Lyall 01745 813659
stanmaberic@hotmail.com

# Cornel y Plant

Ewch ati i liwio, gwrando ar gerddoriaeth a thipyn o grafu pen!




Mae hi bron yn ddydd Gŵyl Dewi. Beth am i chi fynd ati i wrando ar ambell gân Gymraeg i ddathlu ein bod yn Gymry?

Caneuon Awgrymiadol:


1. Drwy dy lygaid di - Yws Gwynedd
2. Diwrnod Braf - Pry Cry
3. Peiriant Ateb - Cledrau
4. Rhedeg i Paris - Candelas.
5. Tŷ ar y Mynydd - Maharishi

Sawl triongl sydd yn y llun?



Gair i Gall: Edrychwch am rai gwahanol feintiau.

## Croesrif





**Ar Draws**

1. 5 x 2
2. 111 + 1
3. 11 x 5
4. Dwsin
5. 9 x 4
6. 100 ÷ 5
7. 45 ÷ 3
8. Deunaw
9. 10 x 14
10. 90 - 6

**I Lawr**

1. 20 x 6
2. 30 ÷ 2
3. 300 + 254
4. 61 x 2
5. 500 x 6
6. Chwarter 100
7. 67 + 83
8. 19—7
9. 55 ÷ 5







Defnyddiwch y templedi i greu **pypedau bys**










| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6 | 7 | | 2 | | | 5 | |
| | 5 | | | | 1 | 9 | | |
| 1 | | | | 9 | 5 | 4 | 2 | |
| | | | | 8 | 3 | | | 7 |
| 8 | 2 | | | | | | 9 | |
| | 1 | 3 | | | | 2 | | 5 |
| 3 | | | | | 9 | | | 8 |
| | 9 | 5 | 6 | 7 | | 1 | 3 | |
| | 8 | | 5 | | | | 4 | |

# Pwyllgor Apêl Dinbych
# Eisteddfod Yr Urdd 2020

Un o'r digwyddiadau mawr olaf fydd y Pwyllgor Apêl yn drefnu fydd Noson yn Bryn Williams @ Porth Eirias ar Ddydd Gŵyl Dewi. Rydym yn ddiolchgar iawn i Bryn am drefnu y noson hon i godi arian i'r pwyllgor apêl.
Bydd y bwyd a'r diod yn gynwysedig yn y pris.
Dyma'r Manylion

Nos Sul Mawrth 1af 2020
Ymunwch gyda ni am noson o fwyd, diod a mwynhad!
Yr elw tuag at Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020
6.30pm - 9.30pm tocynnau
Am docynnau cysylltwch â Elin ar
01492 577 525 /




Mae Sarah Carvell, artist lleol, sy'n adnabyddus yn genedlaethol, wedi gwneud llun inc sydd wedi'i wneud yn argraffiad cyfyngedig o 100 o brintiau 'giclee'.
Mae pob un wedi'i lofnodi a'i rifo, i godi arian ar gyfer Eisteddfod Urdd 2020.

Mae bob print yn 19" x 23", wedi'u mowntio yn costio £110. I brynu un o'r printiau argraffiad cyfyngedig hyn, e-bostiwch mair.edwards1@gmail.com cyn gynted â phosib. Roedd tua 80 wedi'u gwerthu'n barod erbyn i'r Bigwn fynd i'r wasg. Felly, cyntaf i'r felin….!







Cafwyd noson wych yn gig Bryn Fôn, Noson Santes Dwynwen. Roedd Neuadd y Dref, Dinbych yn llawn o bobl o bob oed. Dafydd Hedd o Fethesda fu'n cynhesu'r gynulleidfa a chwaraeodd Bryn Fôn a'i fand ddwy set. Cawsom yr hen ffefrynnau a rhai o'i albym ddiweddaraf. Hwn mae'n debyg fydd digwyddiad mawr olaf y Pwyllgor Apêl yn Ninbych ond er mwyn cyrraedd y nod mae angen ychydig mwy o arian i'r coffrau. Dosbarthwyd amlenni casglu gyda'r Bigwn y llynedd ond os oeddech yn meddwl cyfrannu a heb wneud beth am anfon eich rhodd i'r Pwyllgor Apêl dan ofal Swyddfa'r Urdd, Uned 2, Tŷ Panton, Neuadd Panton, Dinbych, LL16 3TL

J.H.Jones & Co
Cigydd Teuluol
01745 81 2132
92 Stryd y Dyffryn, Dinbych LL16 3BW

siop siocled
01745 814864 dinbych
Siocled o wlad y Belt
Siocled cymraeg o Bala
Pizza siocled - Te, coffi a sgwrs
Cinio ysgafn - Cacenau blasus a sgons
Annie
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431
Llyfrau, Cardiau, Crynoddisgiau a Chrefftau

# Ar eich hynt i Henllan




Ydych chi'n hoffi mynd am dro ond efallai ddim yn rhy heini erbyn hyn i ddringo bryniau a mynyddoedd ond yn dal eisiau ychydig o her. Mae digon o lwybrau yn yr ardal i chi. Bwriad yr erthygl hon yw cyflwyno un daith ac efallai yn sbardun i eraill sgwennu am eu hoff deithiau nhw yn yr ardal.
Taith gylch o Ddinbych i Henllan ac yn ôl yw hon ond yn cadw oddi ar briffyrdd bron yn llwyr. Mae rhannau sy'n gallu bod ychydig yn anodd achos tyfiant a roeddwn i'n difaru ychydig mod i wedi gwisgo trowsus byr!
Mae'r daith yn cychwyn lle mae tai Lôn Llywelyn yn gorffen ar y ffordd allan o Ddinbych tuag at Groes. Byddwch yn cychwyn ar hyd y ffordd i Fferm y Lodge. Gallwch gerdded yno o'r dre neu, wrth gwrs, barcio yn y gilfan sydd rhyw gan llath ymhellach ar draws y ffordd (yr A543).
Cerddwch draw nes bron cyrraedd y ffarm lle welwch chi arwydd Preifat (Private No Right of Way). Dwi'n siŵr fod y llwybr yn arfer mynd drwy'r buarth ond erbyn hyn mae wedi ei ddargyfeirio i'r chwith. Mi welwch chi arwyddion melyn y llwybr yn eich cyfeirio at gamfa. Ewch dros y gamfa a throi i'r dde gan ddilyn y clawdd nes dod i ben yr adeiladau ffarm.
Trowch i'r dde heibio pen yr adeiladau mi welwch lôn las. Dilynwch hon i'w phen. Gall fod tipyn o dyfiant tua'r pen pellaf gan nad ydi'r pen hynny yn cael ei ddefnyddio gan y ffarm ond nid ddylai fod yn rhwystr i neb dim ond cymryd gofal i osgoi drain a danadl poethion.
Yn y pen draw trowch i'r dde i gyrraedd Ffordd Coppy (Y briffordd i Henllan) ond peidiwch a phoeni ni fydd raid i chi gerdded ar hyd honno. Ar y chwith mae yna gamfa garreg, ewch drosti ac anelu ar groeslin ar draws y cae gan anelu am ben y rhes o goed welwch chi o'ch blaen. Ewch dros gamfa arall a mi welwch chi un arall eto ar draws cornel y cae.
Dilynwch y llwybr sydd yn mynd drwy'r coed (Coed Coppy) ar hyd ochr cwrs golff Dinbych. Pan gyrhaeddwch chi ben y llwybr cadwch i fynd i'r un cyfeiriad er nad oes llwybr clir.
Mi welwch chi gasgliad o hen beiriannau fferm ar y dde yn y pen draw (ger Foxhall). Ewch heibio iddynt a thros gamfa gan anelu am wal garreg uchel. Mae adwy yn y wal ond peidiwch a mynd drwyddi ond yn hytrach dilynwch y wal i'r dde nes cyrraedd gamfa arall.




Tydi'r llwybr ddim yn glir yma ond pan es i dilynais y rhimyn o goed (Coed Foxhall) gan gadw yn y cae ar y dde i'r coed. Wrth ddal i fynd ar hyd y llwybr byddwch yn cyrraedd ffordd Ochr y Bryn yn Henllan. Ewch ar hyd y ffordd nes cyrraedd y briffordd gan droi i'r chwith i ddilyn y ffordd drwy'r pentref at y groesffordd. Peidiwch da chi a gadael i Dafarn y Llindir o'ch blaen eich denu i oedi am awr neu ddwy!
Trowch i'r chwith ar hyd Hen Lôn. Dilynwch hi i'r pen. Bu arwydd melyn yma yn eich cyfeirio drwy giât tŷ o'r enw Hiraethog ar y dde. Roedd yr arwydd wedi diflannu pan es i ond mae hawl tramwy yma felly ewch trwy'r giât ar y dde a daliwch i fynd heibio talcen y tŷ at y gamfa sy'n arwain i gae yr ochr arall i'r tŷ. Ynghanol y cae mae yna rimyn o glawdd gyda polyn trydan yn ei ganol. Anelwch am hwn. Mae'r hawl tramwy yn rhedeg i'r dde ohono ac yna fel mae'r tir yn disgyn anelwch ychydig i'r chwith am dro yn y clawdd o'ch blaen. Roedd pont ar draws yr afon Meirchion yno ar un adeg ond rwan mae un mwy newydd wedi ei chodi ymhellach i'r chwith yng nghornel bellaf y cae. Croeswch y bont ac yna cadwch i'r dde yn y cae.



Pan aethom ni roedd cnydau wedi eu plannu yn hwn a'r cae neu ddau nesaf oedd yn gwneud hi'n anodd cadw at y llwybrau yn ôl y map. Rhaid oedd dilyn cyrion y caeau. Bydd rhaid i chi






benderfynu yn ôl be welwch chi. Mae'r cynllun yn dangos sut dylai'r llwybrau arwain ar draws y tri cae o'r bont draw i'r llwybr neu drac yr ochr draw.
Roedd gamfa a'r saeth melyn arferol yr ochr bellaf i'r cae cyntaf ac yn ôl y saeth a'r map dylid croesi'r cae i gamfa tua traean o ffordd ar hyd yr ochr chwith. Bu rhaid i ni ddilyn rownd yr ochr i'r chwith achos y cnwd o india corn. Croeswch y cae siâp triongl nesaf i'r gornel bellaf ac yno gwelwch gamfa. Croeswch y gamfa i'r llwybr neu drac a dilynwch y trac am tua 500m nes bydd yn troi i'r chwith wrth y rhyd welwch chi yma. Cadwch ar y trac sy'n troi yn ffordd ffarm. Dilynwch y ffordd heibio Glan Meirchion nes dowch chi i gyffordd gyda ffordd i ffarm arall (Tan y Marian). Peidiwch a throi i'r dde am y briffordd ond yn hytrach trowch i'r chwith ac yna gwelwch gamfa ar y dde ar ôl llathen neu ddwy.
Croeswch y gamfa a dilyn ochr dde y cae nes gwelwch chi gamfa. Mae slipyrs rheilffordd wedi eu gosod bob ochr iddi fel pompren i groesi'r ffosydd. Gall hon fod yn ddigon anodd i'w gweld yn enwedig pan mae'r coed yn eu dail. Rhaid cyfaddef i mi fethu a'i gweld a rhaid oedd troi yn ôl ar ôl tipyn felly dwi wedi cynnwys llun gyda'r saeth i ddangos ei lleoliad. Ar ôl ei chroesi dilynwch y saethau melyn ac anelu am y polyn trydan yng nghanol y cae. cariwch ymlaen i'r un cyfeiriad nes cyrraedd dwy gamfa yn agos i'w gilydd i groesi cornel y cae nesaf. Daliwch i ddilyn y saethau i ben y codiad tir o'ch blaen oddi yno byddwch yn gweld giât a chamfa i gyrraedd y ffordd fawr (yr A543). Cerddwch ar y chwith at eich car neu yn ôl i'r dre.
Hwyl ar eich hynt i Henllan!


# Mynd Fel Bom –

Llyfr Y Mis Cyngor Llyfrau Cymru Ionawr 2020
Myfanwy Alexander

O ddarllen nofelau Myfanwy Alexander byddai rhywun yn meddwl bod Sir Drefaldwyn yn lle peryglus iawn i fyw ynddo, a tydi ei nofel ddiweddaraf, Mynd Fel Bom, ddim yn eithriad!

Yn Mynd Fel Bom cawn ailymuno â'r ditectif golygus a hoffus Daf Dafis, sy'n ymchwilio i ffrwydrad ar bont reilffordd fechan. Barn uwch-swyddogion yr Heddlu yw bod terfysgwyr wedi targedu cefn gwlad Cymru, a'r canlyniad yw ymchwiliad aml-asiantaeth i weithgareddau teulu Twrcaidd y siop cebabs leol. Ydi, mae'r plot yn un lliwgar, ond mae'r cyd-destun yn rhyfeddol o normal.

"Mae fy milltir sgwâr yn bwysig iawn i mi," eglura Myfanwy, "a dyna pam dwi'n lleoli fy nofelau yma. Dwi'n mwynhau portreadu gwahanol garfanau o'r gymdeithas – o'r to hŷn i'r Ffermwyr Ifanc, pobol broffesiynol a chymeriadau cefn gwlad – er mwyn dathlu'r amrywiaeth sydd o'n cwmpas ni bob dydd. Mae cymeriad Daf Dafis yn arbennig yn agos at fy nghalon − mae'n rhaid i mi gyfaddef 'mod i dipyn bach mewn cariad efo fo − felly mae'n bleser cael sgwennu antur newydd ar ei gyfer!"
Bwriad yr awdur yw troi'r chwyddwydr ar sawl carfan o'r gymdeithas, gan chwalu rhagdybiaethau yn ogystal â thynnu blewyn o drwyn.



# Clwb Pêl-droed Dinbych

Yn ystod y mis diwethaf, mae Dinbych wedi camu ymlaen i rowndiau wyth olaf Tlws yr FAW ar ôl curo Rhos Aelwyd o Gynghrair Cenedlaethol Cymru o 2-1 yn Central Park. Daeth dwy gôl gan y capten Mark Roberts mewn gêm a chafodd ei dominyddu gan y gwynt. Mae gêm yr wyth olaf yn erbyn Baglan Dragons o Gynghrair De Cymru ar yr 8fed o Chwefror.

Yn dilyn buddugoliaeth o 6-0 yn erbyn Llanelwy, fe symudodd Dinbych i rowndiau nesaf Cwpan Cynghrair Mawddach gyda Jake Walker yn hawlio ei drydedd gêm gyda thair gôl a Dan Clarke, Paul Fleming a Mark Roberts yn sgorio'r gweddill.

Yng NghyngrairLockStock Cymru, fe deithion nhw i Flaenau Amateurs cyn y Nadolig gan ddod oddi yno gyda sgôr o 11-1 gyda Jake Walker yn sgorio pum gôl, tair gôl gan Mark Roberts, a Jonathan Terry, Dan Clarke a Jacob Barratt yn sgorio'r goliau eraill.

Dilynwyd hyn gyda gêm yn erbyn arweinwyr y gynghrair ar hyn o bryd, sef HolyheadHotspur, gartref yn Central Park. Roedd Dinbych ar y blaen am gyfnod o'r gêm gyda goliau gan Mark Roberts a Jacob Barratt, ond yn anffodus fe lwyddodd y gwrthwynebwyr i frwydro'n ôl a'i gwneud hi'n gêm gyfartal o 2-2. Mae Dinbych bellach yn y drydydd safle yn y gynghrair, wyth pwynt y tu ôl i'r arweinwyr.

Mae'r Ail Dîm ar frig Cynghrair Ail Dîm Lockstock Cymru ar ôl curo'r arweinwyr Porthmadog oddi cartref. Ar ôl hanner cyntaf ddi-sgôr, fe roddodd Andy Thomas Ddinbych ar y blaen, cyn i Borthmadog sgorio'n fuan wedyn. Sgoriodd Lewis Jenner i Ddinbych, ac fe gafodd Andy Thomas ei ail yn dilyn cic o'r smotyn cyn i Borthmadog lwyddo i sgorio un arall cyn y chwiban olaf. 3-2 oedd y sgôr a lwyddodd i roi Dinbych ar frig y gynghrair. Ers hynny, fe gollodd yr Ail Dîm yn erbyn Colwyn Bay a ddaeth a'u dilyniant o gemau heb golli gêm i ben wedi tri mis. 3-2 oedd y sgôr bryd hynny gyda goliau gan Owen Heath ac Andy Thomas.

Dilynwyd hyn gyda gêm gyfartal siomedig o 3-3 yn erbyn Penmaenmawr Phoenix mewn amodau hynod wyntog ar gae uwchben yr A55. Aeth y gwrthwynebwyr ar y blaen o 3-0 o fewn 7 munud, cyn i Ddinbych daro'n ôl a'i gwneud hi'n gyfartal yn ystod yr ail hanner gyda goliau gan Gwion Bibby, Sam Lewis ac un gôl gan chwaraewr Penmaenmawr.

Roedd y tîm ifanc DenbighDevelopment mewn gêm gwpan yn erbyn Rhyl Allstars a aeth i giciau o'r smotyn. Gôl-geidwad Dinbych, Tommy Hughes oedd arwr y gêm wrth iddo arbed tair gôl er mwyn sicrhau bod y tîm yn symud ymlaen i rownd nesaf Cwpan Cynghrair REM Jones.

Yn y gynghrair, er i Ddinbych fynd ar y blaen o 4-1, colli oedd y canlyniad olaf o 5-4 mewn gêm anodd yn erbyn arweinwyr y gynghrair, Rhyl NFA. Daeth dwy gôl gan Joel Rowlands ac un yr un gan Elliott Chapman a Morgan Rees Jones.

Hoffai'r Clwb gymryd y cyfle hwn i apelio i'r cyhoedd am help y tu ôl i'r llenni. Mae'r Clwb yn cael ei redeg gan griw bach o wirfoddolwyr ac mae sawl swydd yn gofyn am fwy o wirfoddolwyr. Mae gwirfoddoli gyda'r Clwb yn gyfle arbennig i roi rhywbeth yn ôl i'r gymdeithas a chwrdd â phobl newydd a chreu ffrindiau hefyd. Mae rhai o'r rolau yn cynnwys stiwardio, cynorthwyo yn y gegin, codi arian ac adroddwyr y cyfryngau. Os oes gennych chi ddiddordeb, cysylltwch ag Iwan Jones ar 07788627819 neu Steve Whitfield ar 07787485331.

lluniau tud 27

'Hysbysebwch yn Y Bigwn'
ybigwn@hotmail.co.uk

sir ddinbych denbighshire
CYMRAEG
Yn gweithio i gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

SJ CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS
Yn cyflwyno Amser i Siarad ....
Ewyllysiau, Pwerau Atwrneiaeth a Costau Gofal
NID OES ANGEN ARCHEBU LLE
Ymunwch â'n harbenigwyr am gyflwyniad addysgiadol rhad ac am ddim ar y materion pwysig hyn gyda'r cyfle i holi ein cyfreithwyr profiadol

Neuadd Gymunedol Llys Erw
Rhuthun
10yb–11yb
2il Mai
4ydd Gorffennaf
5ed Medi

Canolfan Gymunedol Eirianfa
Factory Place, Dinbych
10yb-11yb
20fed Mehefin
18fed Gorffennaf
15fed Awst
19eg Medi

Canolfan Gymunedol Awelon
Ffordd yr Ysgol, Rhuthun
10yb–11yb
6ed Mehefin
1af Awst

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag aelod o'n Tîm Cleientiaid Preifat ar 01824 703833 (Rhuthun) neu 01745 818263 (Dinbych)
Byddwn yn cynnig gostyngiad unigryw i'r rhai sy'n mynychu
www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com

# Clwb Rygbi Dinbych

Yn dilyn y siom o golli gartref yn erbyn Caernarfon yn y Gynghrair, daeth cyfle i'r Tîm Cyntaf dalu'r pwyth yn ôl yng Nghystadleuaeth Cwpan Gogledd Cymru ychydig ddyddiau'n ddiweddarach. Er i'r gêm orffen gyda'r sgôr yn gyfartal o 15-15 dan lifoleuadau Maes Terry Bryer, Dinbych sicrhaodd eu lle yn rownd yr wyth olaf yn ôl rheolau'r gystadleuaeth, gan sgorio tri chais i ddau. Croesodd Gruff Roberts y llinell ddwywaith, gyda Tom Seddon yn sgorio'r cais arall. Colli'n drwm o 31-3 yn erbyn ein cymdogion o Rhuthun oedd yr hanes ym mis Medi, ond cafwyd perfformiad llawer mwy calonogol ar Gae Ddôl yng ngêm olaf 2019. Rhuthun gariodd y dydd o 15-10 gan sgorio'r cais buddugol pum munud yn unig cyn y chwiban olaf, gyda Gruff Roberts yn sgorio cais a throsiad a Tom Seddon yn sgorio cais i Ddinbych. Roedd y gêm ganlynol yn erbyn tîm arall sy'n agos at waelod yr Adran, Dolgellau, yn hynod bwysig, ac er i'r ymwelwyr fod ar y blaen o 14-10 ar hanner amser, aeth Dinbych ymlaen i ennill o 29-17 a sicrhau pwynt bonws gyda chais yr un i Kieran Bonar, Garin Roberts, Jamie Winning a Tom Seddon a thair cic gosb gan Garin. Siomedig oedd y canlyniad ym Mro Ffestiniog, yn colli o 7-5 yn erbyn y tîm ar waelod yr Adran, gyda Kiearn Bonar yn croesi am unig bwyntiau Dinbych a sicrhau pwynt bonws arall all fod yn holl-bwysig ar ddiwedd y tymor. Teithiodd yr Ail Dîm i Rhuthun, y tîm ar frig Adran 3. Nid yn annisgwyl efallai, colli fu'r hanes o 41-10 gyda Rory Pollard yn sgorio unig gais Dinbych a Tom Evans yn llwyddo gyda throsiad a chic gosb. Doedd pethau fawr haws gartref yn erbyn Tîm Cyntaf Machynlleth, oedd yn y trydydd safle, a'r ymwelwyr aeth â hi o 26-7, gyda Iwan Johnson yn sgorio cais wedi ei drosi gan Ben Reed. Gêm agos iawn gafwyd yn Rhosllannerchrugog, gyda'r sgôr yn 5-5 ar y chwiban olaf. Yr wythwr Gareth Price sgoriodd y cais i Ddinbych.

Chwaraeodd y Timau Dan 13 a 14 yn erbyn Y Rhyl, gyda'r ymwelwyr yn ennill y gêm gyntaf o 38-10 a'r ail o 36-0.

*John Davies*






CATalyst Systems - 01745 816611
enquiries@catsystems.co.uk

**Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)**
**Sganwyr llaw - Systemau CCTV**
**Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G**
**Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk**
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**

**Emyr Evans** a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333





Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900
Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

# Gŵyl San Steffan



Haydn Morris a Fordson bach




Maldwyn Williams gyda'i hen Lan Rover



Buddugwr Dyfan Roberts



Dewi Wykes yn cael cyfweliad gan John Sellers



Cŵn hela yn y sgwar




Osian Williams yn cystadlu



Y Cynghorydd Gaynor Tickle yn gwobrwyo Gwion Williams




Enillydd y dynion oedd Gareth Owen, Llannefydd



Dewi Wykes a Ffion Jones



Clwb Pêl-droed Dinbych hanes tud 25



Eluned enillydd ras y merched






# Ysgol Twm o'r Nant



Mrs Jane Jones



Uned dan 5 - Ava,Ava a Leusa



Peyton ac Esme



Cadi,Erin ac Esme




**Uned Dan 7 -**Mae'r Uned Dan 7 wrth eu boddau gyda'u themâu newydd 'Cartrefi'.Mae'r plant wedi bod yn dysgu stori Y Tri Mochyn Bach ac yn adeiladu tai gyda pob math o ddeunyddiau



Gwil
Isod Uned 9



Robin Williams

